**AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU**

Cofnodion cyfarfod Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru a gynhaliwyd ddydd Llun 16 Mehefin 2014 yn Siambr Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, Bodlondeb, Conwy. Dechreuodd y cyfarfod am 10.50 y bore.

**YN BRESENNOL**

| **Y Cynghorydd** | **Yn cynrychioli** |
|---|---|
| M Ll Davies (Cadeirydd) | Cyngor Sir Ddinbych |
| P R Lewis (Dirprwy Gadeirydd) | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| R Davies | Cyngor Sir Ddinbych |
| L W Davies | Cyngor Sir Ynys Môn |
| A Evans | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| J G Evans | Cyngor Sir Ynys Môn |
| J M Evans | Cyngor Sir Ynys Môn |
| C Hughes | Cyngor Gwynedd |
| D Kelly | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| D A MacRae | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| H McGuill | Cyngor Sir y Fflint |
| D J Miles | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| P Owen | Cyngor Sir Ddinbych |
| W T Owen | Cyngor Gwynedd |
| R E Parry | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| J R Skelland | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| A Tansley | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| W O Thomas | Cyngor Sir y Fflint |
| R Wright | Cyngor Gwynedd |

**Hefyd yn bresennol:**

S A Smith (Prif Swyddog Tân a Phrif Weithredwr); C P Everett (Clerc a Swyddog Monitro); K W Finch (Trysorydd yr Awdurdod); G Owens (Dirprwy Glerc a Swyddog Monitro); D Docx (Dirprwy Brif Swyddog Tân); R Simmons ac R Fairhead (Prif Swyddogion Tân Cynorthwyol); G W Griffiths (Rheolwr Hyfforddi a Datblygu); G Brandrick (Uwch Reolwr Diogelwch Tân); K Roberts (Uwch Reolwr Gweithrediadau); S Morris (Rheolwr Cynllunio Corfforaethol); T Williams (Rheolwr Cyfathrebu Corfforaethol); S Forrest (Cyfrifydd, Adran y Trysorydd, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy); A Davies (Swyddog Cyswllt yr Aelodau) ac S Jones (Cynorthwy-ydd Cyswllt yr Aelodau).

**YMDDIHEURIADAU**

| **Y Cynghorydd** | **Yn cynrychioli** |
|---|---|
| B Dunn | Cyngor Sir y Fflint |
| A Jones | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| G Lowe | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| W R Owen | Cyngor Gwynedd |
| M A Reece | Cyngor Sir y Fflint |
| W P Shotton | Cyngor Sir y Fflint |
| D Simmons | Cyngor Sir Ddinbych |
| G G Williams | Cyngor Gwynedd |
| **Swyddogion** | |
| L Roberts | Uwch Reolwr yr Ystafell Reoli a Pharhad Busnes |

1 DATGAN BUDDIANNAU

1.1 Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

2 COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR 17 MAWRTH 2014

2.1 Cafodd cofnodion cyfarfod yr Awdurdod Tân ac Achub a gynhaliwyd ar 17 Mawrth 2014 eu cyflwyno i'w cymeradwyo.

2.2 **PENDERFYNWYD cymeradwyo'r cofnodion yn gofnod gwir a chywir.**

3 MATERION YN CODI

3.1 Gorsaf dân ac ambiwlans Wrecsam – rhoddodd y PST wybod i'r Aelodau fod achos busnes llawn wedi ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru a'i fod wedi cael ei gymeradwyo o fewn yr amserlenni, ac roedd Pwyllgor Cynllunio Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam wedi cymeradwyo'r cais cynllunio. Cadarnhaodd y Cyng. Skelland ei fod wedi mynychu'r cyfarfod cynllunio a bod y cais wedi ei basio heb broblem, ac roedd yn ddiolchgar i bawb am eu dyfalbarhad gyda'r prosiect. Hefyd, cadarnhaodd y PST y byddai seremoni torri'r tyweirch yn cael ei chynnal gyda'r Gweinidog yno'n bresennol, ac apêl y Cyng. McGuill oedd i gymaint o Aelodau â phosibl fod yn bresennol yn y seremoni er mwyn dangos cefnogaeth ac i ddangos gwerthfawrogiad i bawb sydd wedi gweithio mor galed ar y prosiect.

4 MATERION YN CODI

4.1 Nid oedd unrhyw faterion brys.

5 ADRODDIAD Y CADEIRYDD

5.1 Roedd yr adroddiad yn rhestru'r cyfarfodydd a'r digwyddiadau yr aeth y Cyng. M Ll Davies a'r Cyng. P R Lewis iddynt rhwng Mawrth a Mehefin 2014 yn rhinwedd eu swyddi fel Cadeirydd a Dirprwy Gadeirydd Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru. Nodwyd bod cyfarfod rheolaidd gyda'r Prif Swyddog Tân a oedd i'w gynnal ar 13 Mehefin 2014 wedi ei ganslo.

5.2 **PENDERFYNWYD nodi'r wybodaeth a ddarparwyd.**

6 PROSIECT Y GWASANAETHAU TÂN AC ACHUB YNG NGHYMRU 2013

6.1 Cyflwynodd y Prif Swyddog Tân yr adroddiad a oedd yn rhoi gwybod i'r Aelodau am sefyllfa bresennol prosiect y Gwasanaethau Tân ac Achub yng Nghymru.

6.2 Atgoffwyd yr Aelodau gan y PST fod yr adroddiad a oedd yn atodiad A wedi ei ryddhau i'r Aelodau dan amodau rhan II yn y cyfarfod ym mis Mawrth 2014. Ailfynegodd y PST ei bryderon ynglŷn â'r prosiect, ac roedd i'r argymhellion oblygiadau pellgyrhaeddol i'r Awdurdod, yn enwedig o ran ei lywodraethiad.

6.3 Yn ogystal â'r adroddiad, cafodd yr Aelodau gopi o'r llythyr a anfonwyd gan Gadeirydd yr Awdurdod at y Gweinidog (dyddiedig 10 Chwefror 2014) ac a oedd yn nodi nifer o bryderon, ac ymateb y Gweinidog (dyddiedig 4 Mawrth 2014) y byddai hi yn bwrw ymlaen gydag argymhellion yr adroddiad. Yn y cyfarfod, rhoddwyd copi o lythyr dyddiedig 10 Mehefin 2014 oddi wrth y Gweinidog i'r Cadeirydd. Roedd y llythyr yn gwahodd "un cynrychiolydd o'r Awdurdod i fod yn aelod o Fwrdd swyddogol Rhaglenni, a fydd yn goruchwylio ac yn hybu'r naw argymhelliad cyntaf".

6.4 Roedd yr Aelodau'n rhannu pryderon y PST ynglŷn â'r adroddiad yn gyffredinol, y diffyg ymgynghori ar yr adroddiad ac na ddilynwyd proses ystyrlon i ddod i'r casgliad. Roedd y Clerc yn bryderus hefyd ynglŷn â chefndir y materion llywodraethu a nodir yn yr adroddiad.

6.5 I ateb cwestiwn ynglŷn â strwythur pwyllgorau'r tri ATA yng Nghymru, cadarnhaodd y Clerc fod strwythurau pwyllgorau gwahanol yn y tri ATA. Mae ATAGC yn gweithredu mewn dull anwleidyddol, ac mae ganddo hanes da o gytgord wrth gydweithio; nid yw Swyddfa Archwilio Cymru erioed wedi tynnu sylw at bryderon gyda'r Awdurdod, ac mae ganddo hanes rhagorol ymhob maes perfformiad, gan gynnwys gweithio mewn partneriaeth. Teimlai'r Aelodau fod gan yr Awdurdod swyddogaeth graffu dda yn y Pwyllgor Archwilio, ac mae'r holl benderfyniadau pwysig yn cael eu gwneud gan y 28 o aelodau'r Awdurdod. Cadarnhaodd y Cyng. Lewis fod pedwar cyfeiriad at graffu yng nghylch gorchwyl y Pwyllgor Archwilio.

6.6 Dywedodd y Cyng. Hughes fod yr adroddiad yn amlwg yn destun pryder mawr, a chynigiodd bod Gweinidogion y Cynulliad dros Ogledd Cymru yn cael gwybod am yr adroddiad a'r pryderon ynglŷn â'r argymhellion a'r adroddiad yn gyffredinol. Eiliwyd y cynnig hwn gan y Cyng. Wright. Cynigiodd y Cyng. J G Evans hefyd fod ffordd debyg yn cael ei dilyn gyda'r Aelodau Seneddol sy'n cynrychioli Gogledd Cymru.

6.7 Daeth y Cadeirydd â'r drafodaeth hirfaith i ben, ac wedi derbyn cynnig y Cyng. Hughes, **PENDERFYNWYD**

**(i) nodi cynnwys prosiect y Gwasanaethau Tân ac Achub yng Nghymru;**
**(ii) ailgadarnhau safbwynt yr Awdurdod ynghylch yr adroddiad, a'r pryderon a gyflwynwyd eisoes i'r Gweinidog;**
**(iii) awdurdodi'r Prif Swyddog Tân i gymryd rhan yn y Bwrdd Rhaglenni ar sail safbwynt yr Awdurdod ynghylch yr adroddiad, cyhyd ag y bydd y ddau PST arall yng Nghymru yn cymryd rhan hefyd;**
**(iv) gwahodd aelodau o'r Bwrdd Rhaglenni ac awdur yr adroddiad i adolygu llywodraethiad corfforaethol ac ariannol yr Awdurdod fel patrwm;**
**(v) dosbarthu'r adroddiad i bob Aelod o'r Cynulliad a'r Aelodau Seneddol ar gyfer etholaethau a rhanbarthau'r ardal, gan roi cynnig cyfarfod briffio a'u gwahodd i gefnogi ac eiriol dros safbwynt yr Awdurdod.**

Ar yr adeg hon, gadawodd y Cyng. L W Davies y cyfarfod.

7 PERFFORMIAD ARIANNOL 2013-14

7.1 Cyflwynodd y Trysorydd yr adroddiad a oedd yn rhoi adolygiad i'r aelodau o berfformiad ariannol yr Awdurdod yn 2013-14. Nodwyd bod y Pwyllgor Archwilio wedi trafod yr un adroddiad yn ei gyfarfod, ac nid oedd gan yr aelodau unrhyw sylwadau, nid oeddent yn gallu canfod unrhyw risgiau mawr yn yr adroddiad, ac roeddent yn argymell ei fod yn cael ei gymeradwyo gan yr Awdurdod.

7.2 Cafodd yr Aelodau gyfle i ofyn cwestiynau am yr adroddiad, ac mewn ateb i gwestiwn gan un Aelod, cadarnhawyd bod digwyddiadau y gellir codi ffi amdanynt yn cael eu galw'n alwadau gwasanaethau arbennig, ac mae'r rheini'n cynnwys rhoi benthyg cyfarpar ac ymdrin ag adeileddau nad ydynt yn ddiogel. Er bod modd codi ffi, ni all y Gwasanaeth adfer ei gostau llawn am fynd at ddigwyddiadau o'r fath oherwydd cyfarwyddyd cenedlaethol ar y gyfradd yn ôl yr awr.

7.3 Cais y Cyng. Lewis i'r dyfodol oedd y dylai'r wybodaeth am y gyllideb yn atodiad A gynnwys ffigyrau'r flwyddyn flaenorol er gwybodaeth. Cadarnhaodd y Trysorydd fod modd gwneud hyn.

7.4 **PENDERFYNWYD**

**(i) trosglwyddo'r tanwariant i'r Cronfeydd a'r Darpariaethau fel a ganlyn:**

| | |
|---|---|
| Y Gronfa Gyfalaf –<br>i ariannu'r rhaglen gyfalaf er mwyn lleihau costau dyledion yn y dyfodol | £1,000,000 |
| Darpariaeth ar gyfer Pensiynau'r System RDS –<br>i wrthbwyso'n llwyr yr ymrwymiad, gan fod y negodi nawr wedi dod i ben | £336,358 |

**(ii) trosglwyddo rhwng y Cronfeydd a'r Darpariaethau fel a ganlyn:**

| | |
|---|---|
| Darpariaeth ffioedd Wrecsam – nid oes mo'i hangen mwyach – ei throsglwyddo i'r Gronfa Gyfalaf | £880,400 |
| Cronfa a Glustnodwyd 2013-14 – ariannu'r gwariant o'r refeniw – ei drosglwyddo i'r Gronfa Gyfalaf | £116,000 |

**(iii) cytuno y bydd atodiad A mewn adroddiadau yn y dyfodol yn cynnwys ffigyrau'r gyllideb am y flwyddyn flaenorol er mwyn cymharu.**

8 CYNLLUN AR Y CYD I LEIHAU RISG A GWELLA 2015-16

8.1 Cyflwynodd y Prif Swyddog Tân yr adroddiad a oedd yn rhoi crynodeb o waith Gweithgor y Cynllun Gwella a'r argymhellion ar Amcanion Gwella drafft yr Awdurdod ar gyfer 2015-16 a'r tu hwnt a oedd wedi eu cyflwyno i'r Panel Gweithredol.

8.2 Roedd Gweithgor y Cynllun Gwella wedi derbyn gwahanol gyflwyniadau yn ystod ei dri chyfarfod yn gynharach yn y flwyddyn, ac wedi canolbwyntio ar y bwlch cyllido a ragwelir ar gyfer y 5 mlynedd nesaf ac wedi ystyried enghreifftiau o lefelau'r toriadau y byddai eu hangen i gael y £3 miliwn o arbedion angenrheidiol a ragwelir. Ailfynegodd y PST mai dim ond enghreifftiau oedd y rheini ym mharagraff 9 o'r adroddiad, nid cynigion ar gyfer y ffordd ymlaen mohonynt.

8.3 Ar ôl ystyried yr holl opsiynau a chyngor y PST, roedd y Panel Gweithredol, yn ei gyfarfod ar 12 Mai, wedi cefnogi'r cynnig a wnaed gan y Gweithgor, sef y dylai'r strategaeth ariannol gyfredol ar gyfer 2014-15 i 2016-17, a oedd yn cyfyngu unrhyw gynnydd yn y gyllideb refeniw flynyddol i uchafswm sy'n cyfateb i £1 y pen o'r boblogaeth, gael ei hymestyn at 2019-20. Roedd angen cytundeb yr Awdurdod Tân ac Achub erbyn hyn, gan gydnabod bod angen cynnal ymgynghoriad eang gyda'r awdurdodau cyfansoddol a'r cyhoedd yn gyffredinol. Dywedodd y Clerc y byddai'r chwe awdurdod cyfansoddol yn cael eu gwahodd i ystyried Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru fel rhan o'r 'gwasanaethau teulu', a byddai'n argymell y ffordd honno o ymdrin â'r mater er mwyn iddi fod yn dryloyw. Dywedodd y mai peth buddiol fyddai rhoi cyflwyniad cynnar i'r chwe chyngor er mwyn codi ymwybyddiaeth cyn iddynt ddechrau trafod cylch cyllideb y flwyddyn nesaf.

8.4 **PENDERFYNWYD**

**(i) y dylai'r Amcan Gwella drafft olygu cadw lefel bresennol y Gwasanaeth Tân ac Achub yng Ngogledd Cymru, ac felly gael cynnydd yn y gyllideb. Fodd bynnag, dylai'r amddiffyniad, sef na ddylai lefel y cynnydd blynyddol gyfateb i ddim mwy na £1 yn ychwanegol y pen o'r boblogaeth yng Ngogledd Cymru, barhau ac ymestyn o 2016-17 i 2019-20;**

**(ii) y dylid ymgynghori'n eang a chadarn ynghylch hyn er mwyn penderfynu ar y strategaeth 5 mlynedd hon erbyn cyfarfod yr Awdurdod Tân ac Achub ym mis Rhagfyr.**

9 ADOLYGU'R RHEOLIADAU ARIANNOL A'R POLISI GWRTH-DWYLL A LLYGREDD

9.1 Cyflwynodd y Trysorydd yr adroddiad a oedd yn ceisio cymeradwyaeth i'r fersiynau wedi eu diweddaru o'r Rheoliadau Ariannol a'r Polisi Gwrth-Dwyll a Llygredd ar gyfer yr Awdurdod, sef un o'r pwyntiau gweithredu a oedd yn deillio o'r hunanasesiad llywodraethu blynyddol ar gyfer 2013-14.

9.2 Mae'r rheoliadau ariannol yn darparu'r fframwaith sydd ei angen i reoli materion ariannol yr Awdurdod, tra hefyd yn annog gwerth gorau a hybu atebolrwydd lleol. Hefyd, y polisi gwrth-dwyll a llygredd yw'r fframwaith ar gyfer llywodraethu moesegol yn yr Awdurdod ac mae'n nodi ei ymrwymiad i atal a chanfod twyll a llygredd.

9.3 Diolchodd y Trysorydd i Sandra Forrest a Claire Dingle am eu gwaith, a nodwyd eu bod wedi cydweithio â swyddogion o'r ddau awdurdod tân ac achub arall yng Nghymru i ddarparu rheoliadau sy'n briodol ar gyfer y tri awdurdod.

9.4 **PENDERFYNWYD cymeradwyo'r fersiynau wedi eu diweddaru o'r Rheoliadau Ariannol a'r Polisi Gwrth-Dwyll a Llygredd i'w defnyddio yn yr Awdurdod.**

10 GWEITHGARWCH RHEOLI'R TRYSORLYS A GWIR DDANGOSYDDION ARIANNOL 2013-14

10.1 Cyflwynodd y Trysorydd yr adroddiad, sef un o ofynion blynyddol gweithdrefnau adrodd yr Awdurdod. Roedd yr adroddiad yn nodi gweithgarwch y trysorlys a'r gwir ddangosyddion ariannol am 2013-2014, yn unol â gofynion y Cod Materion Ariannol.

10.2 Roedd yr Awdurdod wedi cydymffurfio â'r holl ofynion statudol a rheoleiddiol perthnasol, sy'n cyfyngu ar lefelau'r risg sy'n gysylltiedig â'i weithgarwch rheoli'r trysorlys. Cadarnhaodd y Cyng. Skelland, fel Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio, fod y Pwyllgor wedi derbyn cyflwyniad manwl ar yr adroddiad yn ei gyfarfod diwethaf, ac roedd yn argymell bod yr Awdurdod yn cymeradwyo'r adroddiad. Talodd y Trysorydd deyrnged i Sandra Forrest am ei holl waith yn monitro'r materion sy'n gysylltiedig â rheoli'r trysorlys.

10.3 **PENDERFYNWYD cymeradwyo gwir Ddangosyddion Ariannol 2013-2014.**

Ar yr adeg hon, gadawodd y Cyng. A Evans y cyfarfod.

11 ADRODDIAD BLYNYDDOL AM Y DYLEDION DRWG A DDILËWYD

11.1 Ar gais yr Awdurdod, mae'r Trysorydd yn cyflwyno adroddiad blynyddol erbyn 30 Mehefin ar ôl diwedd y flwyddyn ariannol, gan restru'r holl ddyledion a ddilëwyd a datgan y rhesymau dros eu dileu.

11.2 **PENDERFYNWYD nodi bod y Gwasanaeth wedi dileu tair dyled ddrwg rhwng 1 Ebrill 2013 a 31 Mawrth 2014, â'u cyfanswm yn £848.18.**

12 Y CYNLLUN PENSIWN LLYWODRAETH LEOL: POLISI DISGRESIYNAU

12.1 Cyflwynodd y Dirprwy Brif Swyddog Tân yr adroddiad a oedd yn rhoi gwybod i'r Aelodau am y gofyniad i'r Awdurdod lunio Datganiad Polisi Disgresiynau'r CPLlL. Hefyd, gofynnwyd i'r Aelodau gymeradwyo'r penderfyniadau ar gyfer pob rheoliad sydd yn Natganiad Polisi Disgresiynau'r CPLlL, a chymeradwyo y bydd penderfyniadau ar ran yr Awdurdod yn cael eu dirprwyo o ddydd i ddydd i'r Prif Swyddog Tân a'r Trysorydd.

12.2 Gofynnodd y DBST i'r Aelodau nodi y dylid dileu'r ail baragraff dan 1.5 o'r atodiad gan fod gan yr aelod hawl yn awtomatig i ddefnyddio'r rheol 85 mlynedd o 60 mlwydd oed ymlaen, felly nid oes angen polisi ar gyfer hyn.

12.3 **PENDERFYNWYD cymeradwyo pob penderfyniad ynghylch disgresiwn dan Ddatganiad Polisi Disgresiynau'r CPLlL, a dirprwyo penderfyniadau o ddydd i ddydd i'r Prif Swyddog Tân a'r Trysorydd.**

13 DATGANIAD LLYWODRAETHU BLYNYDDOL

13.1 Cyflwynodd y Dirprwy Brif Swyddog Tân y Datganiad Llywodraethu Blynyddol i'r aelodau i'w gymeradwyo. Nodwyd bod y Pwyllgor Archwilio wedi cael cyflwyniad manwl am bob egwyddor sydd yn y Datganiad, ac wedi argymell bod y Datganiad yn cael ei gymeradwyo gan yr Awdurdod. Nodwyd y bydd y cynllun gweithredu sydd yn y Datganiad yn cael ei roi ar waith yn y misoedd nesaf.

13.2 **PENDERFYNWYD cymeradwyo cynnwys y Datganiad Llywodraethu Blynyddol ar gyfer 2013-14.**

14 PANEL ANNIBYNNOL CYMRU AR GYDNABYDDIAETH ARIANNOL: ADRODDIAD BLYNYDDOL 2014-15

14.1 Cyflwynodd y Clerc yr adroddiad a oedd yn rhoi gwybod i'r Aelodau am welliannau pellach i'w gwneud i Atodlen Cydnabyddiaeth Ariannol yr Awdurdod yn dilyn cyhoeddi Adroddiad Blynyddol y Panel Annibynnol ar Gydnabyddiaeth Ariannol 2014/15.

14.2 Gofynnodd y Clerc i'r Aelodau ddirprwyo awdurdod iddo ef i ymdrin â'r mân faterion sy'n ymwneud â thalu aelodau annibynnol am amser paratoi a mynychu cyfarfodydd.

14.3 **PENDERFYNWYD**

**(i) nodi bod y gyfradd £120 i aros mewn gwesty yng Nghaerdydd wedi mynd, ac erbyn hyn mae'n £95 yn unrhywle y tu allan i Lundain;**

**(ii) nodi bod raid i'r ATA dalu ffi i aelodau cyfetholedig i fynychu cyfarfodydd;**

**(iii) cymeradwyo bod uchafswm nifer y dyddiau y gall aelodau cyfetholedig gael eu talu mewn un flwyddyn yn aros ar bedwar diwrnod llawn y flwyddyn;**

**(iv) dirprwyo awdurdod i'r Clerc a'r Swyddog Monitro i ddatrys y materion a nodir isod:**

- **faint o amser sy'n cael ei ystyried yn rhesymol i'w hawlio i baratoi cyn cyfarfod (penderfyniad 34);**
- **p'un a ellir cynnig amser teithio i le'r cyfarfod ac oddi yno yn yr hawliadau am daliadau a wneir gan aelodau cyfetholedig (hyd at uchafswm y gyfradd ddyddiol) (penderfyniad 35);**
- **penderfynu cyn cyfarfod a all aelodau cyfetholedig hawlio ffi diwrnod llawn ynteu ffi hanner diwrnod, a bydd y ffi yn cael ei thalu ar sail y penderfyniad hwn hyd yn oed os bydd y cyfarfod yn gorffen cyn i bedair awr fynd heibio;**
- **gan gynnwys Penderfyniad 37 yn Atodlen y Gydnabyddiaeth Ariannol – Mae cyfarfodydd sy'n gymwys ar gyfer talu ffi yn cynnwys pwyllgorau a gweithgorau eraill (gan gynnwys grwpiau gorchwyl a gorffen), cyn-gyfarfodydd gyda swyddogion, hyfforddiant a mynychu cynadleddau neu unrhyw gyfarfod ffurfiol arall y gofynnir i aelodau cyfetholedig eu mynychu.**

15 COFNODION ER GWYBODAETH

15.1 Cafodd cofnodion y cyfarfodydd canlynol eu cyflwyno er gwybodaeth:

- cyfarfod y Panel Gweithredol a gynhaliwyd ar 12 Mai
- cyfarfod y Pwyllgor Archwilio a gynhaliwyd ar 2 Mehefin.

15.2 **PENDERFYNWYD nodi'r cofnodion er gwybodaeth.**

RHAN II - Yn unol ag Adran 100A (4) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, gofynnwyd i'r wasg a'r cyhoedd adael y cyfarfod tra'r oedd yr eitem fusnes ganlynol(eitemau busnes canlynol) yn cael ei hystyried oherwydd ei bod yn debygol y byddai gwybodaeth eithriedig, fel y diffinir ym Mharagraff(au) 12 i 18 o Ran 4 o Atodlen 12A i Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, yn cael ei datgelu iddynt.

16 GWEITHREDU DIWYDIANNOL

16.1 Rhoddodd y Prif Swyddog Tân ddiweddariad ar y gweithredu diwydiannol.

16.2 I ateb cwestiwn gan un o'r Aelodau ynglŷn â difaterwch ymhlith y cyhoedd yn gyffredinol a rhoi gwybod iddynt am y datblygiadau o ran y streicio, dywedodd y PST wrth yr Aelodau am y gwefannau cyfryngau cymdeithasu sy'n cael eu defnyddio i godi ymwybyddiaeth a'r negeseuon atal tân sy'n cael eu rhannu'n rheolaidd, ac roedd y rhain i'w gweld yn cael derbyniad da ymhlith y cyhoedd.

16.3 **PENDERFYNWYD nodi'r wybodaeth a ddarparwyd, ac y bydd yr Aelodau'n cael gwybod am unrhyw ddatblygiadau pellach.**